**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Graddau Arolygu) (Cymru) 2025**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Graddau Arolygu) (Cymru) 2025. Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

**Dawn Bowden AS**
**Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol**

**4 Mawrth 2025**

## 1. Disgrifiad

1.1 Mae Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ("Deddf 2016") yn darparu'r fframwaith statudol ar gyfer rheoleiddio ac arolygu gwasanaethau gofal cymdeithasol a rheoleiddio'r gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru. I gyflawni hynny, mae'n rhoi amrywiaeth o bwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau, gan gynnwys pwerau eraill i lunio is-ddeddfwriaeth.

1.2 Mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn ymwneud â Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Graddau Arolygu) (Cymru) 2025. Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ynghylch graddau mewn perthynas ag ansawdd y gofal a'r cymorth a ddarperir gan ddarparwr gwasanaeth cartref gofal neu wasanaeth cymorth cartref sydd wedi cael ei arolygu.

1.3 Daw'r Rheoliadau i rym ar 31 Mawrth 2025.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2.1 Mae Rheoliadau drafft Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Graddau Arolygu) (Cymru) 2025 wedi eu diwygio yn sgil gwallau a nodwyd yn adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar y fersiwn a dynnwyd yn ôl ar 25 Chwefror 2025 (SL(6)579).

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

3.1 Mae'r pwerau sy'n galluogi Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Graddau Arolygu) (Cymru) 2025 i gael eu gwneud wedi eu cynnwys yn adrannau 37, 45 a 52 o Ddeddf 2016. Ceir rhagor o fanylion isod:

- Mae adran 37(1) yn bŵer gwneud rheoliadau sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth ynghylch graddau y caniateir iddynt gael eu rhoi mewn perthynas ag ansawdd y gofal a'r cymorth a ddarperir gan ddarparwr gwasanaeth sydd wedi cael ei arolygu. Mae adran 37(2) yn nodi y caiff rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch arddangos graddau a phennu meini prawf i'w cymhwyso wrth benderfynu ar radd, a bod rhaid iddynt gynnwys darpariaeth i apelio yn erbyn gradd sydd wedi ei chynnwys mewn adroddiad arolygu.

- Mae adran 45 o Ddeddf 2016 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru gyflwyno rheoliadau sy'n ei gwneud yn drosedd i ddarparwr gwasanaeth fethu â chydymffurfio â darpariaeth benodedig mewn rheoliadau a wneir o dan adran 37(2)(a) (darpariaeth ynghylch arddangos graddau).

- Mae adran 52 yn galluogi Gweinidogion Cymru i roi hysbysiad cosb i berson os ydynt wedi eu bodloni bod y person wedi cyflawni trosedd ragnodedig drwy reoliadau a wneir o dan adran 45.

3.2 Mae'r offeryn hwn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a’r effaith y bwriedir iddi ei chael

4.1 Nod Deddf 2016 yw gwella ansawdd gofal a chymorth yng Nghymru, gan ddarparu mwy o dryloywder a chymaroldeb ar draws gwasanaethau gofal cymdeithasol. Er mwyn helpu i gyflawni hyn, mae Deddf 2016 yn cynnwys pŵer gwneud rheoliadau i sefydlu system o raddau arolygu a ystyrir yn sbardun allweddol ar gyfer gwella gwasanaethau gofal cymdeithasol rheoleiddiedig.

4.2 Diben Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Graddau Arolygu) (Cymru) 2025 yw gwneud darpariaeth ar gyfer system o raddau arolygu i ddarparwyr gwasanaethau cartrefi gofal a darparwyr gwasanaethau cymorth cartref. Mae'r Rheoliadau yn cynnwys gofynion i raddau arolygu gael eu cyhoeddi ar wefan darparwr gwasanaeth ac yn y mannau lle rhoddir gwasanaethau, pan fo hynny'n briodol. Maent hefyd yn darparu ar gyfer system apelio.

4.3 Bydd graddau arolygu, sydd ar gael i'r cyhoedd ac a ddangosir yn glir, yn helpu pobl sydd â diddordeb yn ansawdd gwasanaethau unigol, gan gynnwys defnyddwyr gwasanaethau a chomisiynwyr gwasanaethau presennol a rhai newydd posibl, i wneud cymhariaeth wrthrychol rhwng dau neu ragor o ddarparwyr. Rhagwelir hefyd y bydd cyhoeddi graddau arolygu yn sbarduno gwelliannau ymhlith darparwyr.

## 5. Ymgynghori

5.1 Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar y Rheoliadau hyn am gyfnod o 12 wythnos rhwng 29 Gorffennaf a 14 Hydref 2024. Tynnwyd sylw rhanddeiliaid allweddol at yr ymgynghoriad, gan gynnwys awdurdodau lleol, cyrff sy’n cynrychioli’r sector, y Comisiynydd Pobl Hŷn, cyrff y GIG a’r rheoleiddwyr. Hyrwyddwyd yr ymgynghoriad drwy’r cyfryngau cymdeithasol a chylchlythyr Arolygiaeth Gofal Cymru. Mae’r adroddiad ar yr ymatebion i’r ymgynghoriad ar gael yma.

## RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

### Yr opsiynau

Mae dau opsiwn wedi eu hystyried wrth ddadansoddi costau, manteision a risgiau creu rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau cartrefi gofal a gwasanaethau cymorth cartref arddangos graddau arolygu. Mae'r rhain fel a ganlyn:

- **Opsiwn un: gwneud dim – peidio â'i gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau arddangos graddau arolygu ar gyfer gwasanaethau cartrefi gofal a gwasanaethau cymorth cartref**

  Mae'r opsiwn hwn yn adlewyrchu'r sefyllfa bresennol. O dan yr opsiwn hwn, ni fydd yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau cartrefi gofal a gwasanaethau cymorth cartref arddangos eu graddau arolygu.

- **Opsiwn dau: creu rheoliadau sy'n galluogi cyhoeddi graddau arolygu ar gyfer gwasanaethau cartrefi gofal a gwasanaethau cymorth cartref**

  O dan yr opsiwn hwn, byddai rheoliadau yn cael eu creu sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau cartrefi gofal a gwasanaethau cymorth cartref arddangos eu graddau arolygu ar eu gwefan (os oes ganddynt un) ac yn y mannau lle rhoddir gwasanaethau (gydag eithriadau penodol). Mae'r Rheoliadau yn cynnwys darpariaeth ar gyfer apelio yn erbyn gradd sydd wedi ei chynnwys mewn adroddiad arolygu. Maent hefyd yn creu trosedd, sef methu ag arddangos gradd arolygu, y caniateir ymdrin â hi drwy hysbysiad cosb.

### Costau

- **Opsiwn un: gwneud dim – peidio â'i gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau arddangos graddau arolygu ar gyfer gwasanaethau cartrefi gofal a gwasanaethau cymorth cartref**

*Costau i Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)*

Dyma'r opsiwn sylfaenol, ac felly nid oes unrhyw gostau ychwanegol i AGC o dan opsiwn un.

*Costau i ddarparwyr gwasanaethau*

Nid oes unrhyw gostau ychwanegol i ddarparwyr gwasanaethau o dan opsiwn un.

*Costau i'r cyhoedd*

Nid oes unrhyw gostau ychwanegol i'r cyhoedd o dan opsiwn un.

- **Opsiwn dau: creu rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol cyhoeddi graddau arolygu ar gyfer gwasanaethau cartrefi gofal a gwasanaethau cymorth cartref**

*Costau i AGC*

Gwnaed yr achos dros raddau arolygu yn ystod y broses o ddatblygu'r Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) ("y Bil") yn 2016. Roedd tudalennau 167 i 172 o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Bil yn amlinellu'r costau, y manteision a'r risgiau a ragwelid yn sgil cyflwyno graddau arolygu. Gellir cael gafael ar y ddogfen o dan 'Memorandwm Esboniadol', yma: [Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (senedd.cymru)]

O ganlyniad, mae AGC wedi bod yn gosod y sylfeini ar gyfer cyflwyno graddau arolygu cyhoeddedig ers 2019. Mae eisoes wedi derbyn bron i £3.4 miliwn gan Lywodraeth Cymru i recriwtio staff ychwanegol, diweddaru'r system TGCh, hyfforddi staff a chynnal gwerthusiad annibynnol o raddau mud (anghyhoeddedig). Mae'r tabl isod yn dangos y dadansoddiad o'r cyllid y mae AGC wedi ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru yn ôl blwyddyn ariannol:

Cyllid i AGC i gefnogi'r gwaith o weithredu graddau arolygu

| **Blwyddyn ariannol** | **Cyllid i AGC** | **Rheswm** |
|---|---|---|
| 2019-20 | £455k | Costau staff rheolaidd ar gyfer gweithredu |
| | £284k | Datblygu TGCh |
| | £16k | Hyfforddiant ar gyfer staff |
| 2020-21 | £454,336 | Costau staff rheolaidd ar gyfer gweithredu |
| 2021-22 | £402,767 | Costau staff rheolaidd ar gyfer gweithredu |
| 2022-23 | £540,000 | Costau staff rheolaidd ar gyfer gweithredu |
| 2023-24 | £602,748 | Costau staff rheolaidd ar gyfer gweithredu |
| | £14,807 | Gwerthusiad annibynnol o raddau arolygu |
| 2024-25 | £615,531 | Costau staff rheolaidd ar gyfer gweithredu |
| | £14,807 | Gwerthusiad annibynnol o raddau mud |
| **Cyfanswm** | **£3,399,996** | |

*Staff AGC*

O dan opsiwn dau, byddai'r costau rheolaidd ar gyfer staff AGC ychwanegol o £615,531 y flwyddyn yn parhau. Y rheswm am hyn yw bod angen arolygwyr ychwanegol er mwyn i AGC allu cynnal y nifer o arolygiadau y mae'n eu cynnal

bob blwyddyn oherwydd y cynnydd yn yr amser arolygu yn sgil cyflwyno graddau. Mae hyn yn seiliedig ar dystiolaeth o gyflwyno graddau mud ar gyfer gwasanaethau gofal plant a chwarae.

Cyn cyflwyno graddau mud ar gyfer gwasanaethau gofal plant a chwarae yn 2016-17, ar gyfartaledd, roedd arolygydd yn treulio 3.28 awr ar bob arolygiad, o'i gymharu â 4.71 awr yn 2016-17 a 5.24 awr yn 2017-18. Mae hyn yn dangos cynnydd cyfartalog yn yr amser arolygu o 62.5% fesul arolygiad. Mae AGC wedi cyfrifo bod cynnal y nifer cyfartalog o arolygiadau ar gyfer gwasanaethau rheoleiddiedig i oedolion a phlant felly yn gofyn am 7.4 arolygydd ychwanegol, yn ogystal â dau Swyddog Cymorth Tîm ac un Rheolwr Tîm am gost o £615,531 y flwyddyn. Mae'r gost wedi cynyddu yn 2024-25 o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol oherwydd y dyfarniad cyflog diweddar.

*System TGCh*

Bydd gweithredu graddau arolygu yn gofyn am ddiweddariadau i system TGCh AGC er mwyn galluogi system integredig o raddau ar gyfer gwasanaethau cartrefi gofal a gwasanaethau cymorth cartref. Mae hyn yn cynnwys diwygiadau i dempledi arolygu, gan alluogi'r system Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid (CRM) i gofnodi'r radd a'r cyfleuster i dynnu gwybodaeth am raddau o'r system CRM yn awtomatig fel y gellir ei chynnwys yn y templed adroddiad arolygu ac ar wefan AGC. Mae cyllid o £284,000 eisoes wedi ei ddarparu i AGC ar gyfer y diweddariadau hyn. At ddibenion yr Asesiad hwn, mae'r gost hon yn gost suddedig ac wedi ei diystyru o'r dadansoddiad. O ganlyniad, ni ddisgwylir unrhyw gostau TGCh ychwanegol o dan opsiwn dau.

*Hyfforddiant*

Mae angen hyfforddi arolygwyr i sicrhau eu bod yn deall y dull graddio a sut i gymhwyso'r trothwyon yn gyson yn ymarferol. Mae AGC eisoes wedi darparu dau ddiwrnod o hyfforddiant i bob arolygydd am gost o £16k (cost suddedig). O dan opsiwn dau, bydd angen diwrnod ychwanegol o hyfforddiant ar arolygwyr i'w hysbysu o'r newidiadau sy'n deillio o'r gwerthusiad annibynnol a'r gwersi a ddysgir yn ystod y cyfnod peilot. Mae AGC yn rhag-weld y byddai'r hyfforddiant ychwanegol hwn yn costio tua £8k.

*Diweddaru canllawiau*

Byddai angen diwygio canllawiau arolygu presennol a deunyddiau cysylltiedig hefyd i gynnwys graddau. Mae AGC yn rhag-weld y bydd yn cymryd tri mis i Uwch-swyddog Gweithredol (SEO) ddiwygio'r canllawiau am gost o tua £14,160 yn seiliedig ar y cyflog cyfartalog ar gyfer SEO o £56,633. Er y byddai hyn yn cael ei wneud gan staff presennol AGC, mae'n cynrychioli cost cyfle.

*Ymdrin ag apelau*

O ran cynnydd neu ostyngiad posibl yn nifer yr apelau ar ôl gweithredu graddau cyhoeddedig, mae data AGC yn dangos, yn 2022-23 (cyn i'r cynllun peilot graddau mud ddechrau ym mis Mehefin 2023), mai 125 oedd nifer yr

adroddiadau arolygu a gafodd eu herio. Gostyngodd hyn i 80 yn unig yn 2023-24. Mae AGC wedi dweud na ellir priodoli hyn i gyflwyno graddau mud, o bosibl, gan ei bod wedi gwneud newidiadau eraill i'w fframwaith gwneud penderfyniadau ar y pryd.

Gan ddefnyddio'r data o wasanaethau gofal plant a chwarae yn lle hynny, 146 oedd nifer yr adroddiadau arolygu a gafodd eu herio yn 2018-19, cyn i raddau cyhoeddedig gael eu cyflwyno ym mis Ebrill 2019. Cododd y nifer hwn i 158 yn 2019-20. Mae hyn yn dangos cynnydd o 8% yn nifer yr apelau ar ôl cyflwyno graddau cyhoeddedig ar gyfer y gwasanaethau hyn. Yn seiliedig ar hyn, gallwn ragdybio y bydd cynnydd bach, efallai, yn nifer yr apelau sy'n ymwneud â gwasanaethau cartrefi gofal a gwasanaethau cymorth cartref o fis Ebrill 2025 ymlaen. O ganlyniad i'r ffaith y cafodd 80 o adroddiadau arolygu AGC eu herio yn 2023-24, byddai cynnydd o 8% yn creu 6.4 her ychwanegol i AGC ddelio â nhw yn 2024-25. Gan amcangyfrif ei bod yn cymryd, ar gyfartaledd, dri diwrnod i AGC ymdrin ag apêl cam 1 a cham 2, byddai hyn yn arwain at 19.2 diwrnod ychwanegol o waith. Yn seiliedig ar y rhagdybiaeth bod y gwaith hwn yn cael ei wneud gan SEO sydd ar gyflog cyfartalog o £56,633, cyfanswm y gost ychwanegol fyddai £2,980 yn 2024-25. Nid yw'n glir a fyddai'r cynnydd hwn yn parhau o flwyddyn i flwyddyn. O ganlyniad i bandemig COVID-19, cafodd llai o arolygiadau eu cynnal ac ataliwyd graddau dros dro. Mae hyn wedi effeithio ar y data ar gyfer gwasanaethau gofal plant a chwarae ar ôl 2019-20.

*Argraffu a dosbarthu tystysgrifau graddau arolygu*

Bydd y Rheoliadau Graddau Arolygu yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau cartrefi gofal i oedolion a gwasanaethau cymorth cartref arddangos graddau arolygu ar eu gwefan ac yn y mannau hynny lle rhoddir gwasanaethau (gyda rhai eithriadau). Ar gyfer gwasanaethau cymorth cartref, bydd hyn yn golygu arddangos graddau yn y swyddfa gyhoeddus y mae'r gwasanaeth yn gweithredu ohoni, os bydd ganddo un. Ar gyfer gwasanaethau cartrefi gofal i oedolion â phump neu ragor o unigolion yn byw yn y gwasanaeth, bydd hyn yn golygu arddangos yn lleoliad y cartref gofal. Mae AGC yn bwriadu rhoi contract bach i rywun wneud y gwaith o argraffu a phostio tystysgrifau graddau arolygu A4 wedi eu lamineiddio i'w harddangos gan ddarparwyr. Y rhesymeg yw sicrhau bod y tystysgrifau a gyhoeddir gan AGC, ar ran Gweinidogion Cymru, yn gyson ac yn broffesiynol o ran eu hedrychiad at ddibenion arddangos, a lleihau'r baich ar ddarparwyr. Mae gwasanaethau cartrefi gofal â phedwar neu lai o unigolion, a chartrefi gofal i blant, wedi eu heithrio rhag y gofyniad i arddangos y dystysgrif ond byddant yn cael tystysgrif graddau arolygu ar gyfer eu cofnodion. Disgwylir cost o £16,000 y flwyddyn ar gyfer hyn.

*Costau i ddarparwyr*

Bydd y gost i ddarparwyr arddangos graddau ar eu gwefan yn fach iawn.

O dan opsiwn dau, bydd cost i ddarparwyr sy'n gysylltiedig â'r amser y bydd ei angen arnynt i ymgyfarwyddo â'r system raddau newydd. Er bod AGC eisoes wedi ymgysylltu'n helaeth â darparwyr ar raddau ers 2019, bydd angen mwy o

amser unwaith y bydd manylion y system raddau wedi eu sefydlu. Rydym yn rhag-weld y bydd yn cymryd 10 awr i bob darparwr ymgyfarwyddo â'r Rheoliadau a'r dogfennau canllaw newydd er mwyn paratoi ar gyfer cyflwyno graddau cyhoeddedig.

Mae'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (ASHE) yn darparu ffigurau ar enillion fesul awr ar gyfer gwahanol alwedigaethau. Mae'r tabl isod yn nodi'r ffigurau ar gyfer y ddwy alwedigaeth fwyaf perthnasol yn nata'r arolwg. Gan amcangyfrif y bydd yn cymryd 10 awr i Unigolyn Cyfrifol a rheolwr ymgyfarwyddo â'r Rheoliadau a'r canllawiau, rydym yn amcangyfrif bod hyn yn debygol o gostio £614 i bob darparwr. Yn seiliedig ar 690 o ddarparwyr cartrefi gofal a 451 o ddarparwyr cymorth cartref yng Nghymru ar 10 Gorffennaf 2024, amcangyfrifir mai cyfanswm y gost gyfanredol ar gyfer hyn yw £700,570.

| Galwedigaeth | Cyflog gros fesul awr (canolrif Cymru 2022) | Cyflog gros fesul awr, gan gynnwys argostau (30%) | Cost i Unigolion Cyfrifol a rheolwyr ymgyfarwyddo â graddau (gan ragdybio y bydd yn cymryd 10 awr) |
|---|---:|---:|---:|
| Rheolwyr a Chyfarwyddwyr ym maes Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 27.15 | 35.30 | £353.00 |
| Rheolwyr a Pherchnogion ym maes Iechyd a Gwasanaethau Gofal | 20.07 | 26.09 | £260.90 |

[Enillion ac oriau a weithiwyd, rhanbarth yn ôl galwedigaeth a SOC pedwar digid: ASHE Tabl 15 - y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk)]

Fel y disgrifir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Bil, efallai y bydd darparwyr gwasanaethau yn profi rhai costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â staff yn treulio mwy o amser yn trafod â'r arolygydd. Fel y nodir ar dudalen 169 o'r Asesiad hwnnw, gan ragdybio bod yr arolygydd yn treulio 30 munud ychwanegol yn trafod yn unigol gyda'r rheolwr gwasanaeth a chyda phedwar gweithiwr gofal, amcangyfrifwyd mai'r gost ychwanegol oedd £32 fesul lleoliad yn 2018. Mae hyn wedi cael ei ailgyfrifo ar gyfer 2024. Yn seiliedig ar gyfradd fesul awr rheolwr gwasanaeth (£20.07) a gymerwyd o'r Arolwg Blynyddol diweddaraf o Oriau ac Enillion, a chyfradd fesul awr gweithiwr gofal (£12.00) yn seiliedig ar y Cyflog Byw Gwirioneddol, yn ogystal ag argostau o 30%, amcangyfrifir bod cost ychwanegol arolygydd sy'n treulio 30 munud ychwanegol gyda phedwar aelod o staff gofal a rheolwr gwasanaeth yn 2024 yn £44.25 fesul arolygiad. Yn ôl adroddiad blynyddol AGC ar gyfer 2022-23, cynhaliwyd cyfanswm o 1,433 o arolygiadau ar draws yr holl wasanaethau. Gan fod gwasanaethau cartrefi gofal

a gwasanaethau cymorth cartref yn cyfrif am oddeutu 95% o'r holl wasanaethau yng Nghymru, amcangyfrifir mai cyfanswm y gost gyfanredol y flwyddyn yw £60,224.

Y pedair gradd arolygu fydd 'gwasanaeth rhagorol', 'gwasanaeth da', 'gwasanaeth sydd angen ei wella', a 'gwasanaeth sydd angen ei wella'n sylweddol'. Gallai ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr arddangos eu graddau arolygu gael effaith ariannol negyddol ar wasanaethau sy'n cael eu graddio fel 'gwasanaethau sydd angen eu gwella'n sylweddol' (a ddisgrifiwyd yn flaenorol fel 'gwael') ar gyfer unrhyw un o'r pedair thema y rhoddir gradd yn eu herbyn (Llesiant, Gofal a Chymorth, yr Amgylchedd, ac Arwain a Rheoli). Er bod adroddiadau arolygu eisoes yn disgrifio ansawdd gofal pob un o'r pedair thema hyn ar ffurf naratif, bydd cael gradd ar gyfer pob thema yn amlygu'n gliriach lle mae'r gwasanaeth yn tanberfformio. Mae hyn yn debygol o atal pobl rhag bod eisiau defnyddio'r gwasanaeth, a allai gael effaith ar incwm y darparwr ar gyfer y gwasanaeth hwnnw. Fodd bynnag, mae'n annhebygol y bydd graddau yn effeithio ar ymddygiad comisiynwyr gan fod AGC eisoes yn cyfathrebu â chomisiynwyr awdurdodau lleol am wasanaethau sy'n tanberfformio.

Mae data o gynllun peilot graddau mud AGC yn dangos, allan o 2,920 o raddau a ddyfarnwyd i ddarparwyr rhwng 1 Mehefin a 31 Rhagfyr 2023, mai dim ond 7.8% o raddau "gwael" a gafodd eu rhoi. Cafodd y rhan fwyaf o ddarparwyr raddau da. Mae hyn yn rhoi arwydd o ganran y farchnad a allai gael ei heffeithio gan raddau gwael.

Graddau mud a ddyfarnwyd rhwng 1 Mehefin a 31 Rhagfyr 2023

| | Nifer y graddau a ddyfarnwyd: | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Thema:** | **Rhagorol** | **Da** | **Angen Gwella** | **Gwael** |
| Llesiant | 86 | 421 | 198 | 81 |
| Arwain a Rheoli | 83 | 490 | 147 | 66 |
| Gofal a Chymorth | 92 | 478 | 138 | 56 |
| Yr Amgylchedd | 33 | 462 | 63 | 26 |
| | **294** | **1851** | **546** | **229** |

*Costau ac arbedion i'r cyhoedd*

Mae'n debygol y bydd yn cymryd llai o amser i'r cyhoedd wneud cymhariaeth rhwng gwasanaethau tebyg unwaith y bydd graddau arolygu wedi eu sefydlu. Mae hyn yn debygol o greu arbediad o ran amser pobl, fodd bynnag, ni fu'n bosibl mesur hyn yn ariannol.

Crynodeb o'r costau, 2024-25 i 2028-29 (£)

| | **2024-25** | **2025-26** | **2026-27** | **2027-28** | **2028-29** |
|---|---|---|---|---|---|
| **AGC** | | | | | |
| Canllawiau | 14,160 | | | | |
| Hyfforddiant | 8,000 | | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Arolygiadau blynyddol | 615,531 | 615,531 | 615,531 | 615,531 | 615,531 |
| Apelau | 2,980 | 2,980 | 2,980 | 2,980 | 2,980 |
| **Darparwyr Gwasanaethau** | | | | | |
| Ymgyfarwyddo | 700,570 | | | | |
| Amser yn ystod arolygiadau | 59,490 | 59,490 | 59,490 | 59,490 | 59,490 |
| Argraffu tystysgrifau | 640 | 640 | 640 | 640 | 640 |
| **Cyfanswm** | **1,341,881** | **619,151** | **619,151** | **619,151** | **619,151** |

**Manteision**

- **Opsiwn un: gwneud dim – peidio â'i gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau arddangos graddau arolygu ar gyfer gwasanaethau cartrefi gofal a gwasanaethau cymorth cartref**

*Manteision i AGC*

I AGC, mae gweithredu graddau arolygu yn broses sy'n defnyddio llawer o adnoddau ac yn gofyn am fuddsoddiad sylweddol mewn pryd i ddatblygu meini prawf ar gyfer graddau, diweddaru dogfennau canllaw, hyfforddi arolygwyr, ac ymgysylltu â darparwyr, comisiynwyr, a'r cyhoedd. O ganlyniad, o dan opsiwn un, byddai gan AGC fwy o amser i ganolbwyntio ar feysydd gwaith eraill.

*Manteision i ddarparwyr gwasanaethau*

Dangosodd canlyniad y gwerthusiad annibynnol o raddau mud fod gan ddarparwyr gwasanaethau safbwyntiau cymysg ynghylch effeithiolrwydd a phriodoldeb graddau. Cododd y rhai a oedd yn llai cefnogol bryderon am effaith gradd wael ar forâl rheolwyr a staff, yn ogystal â bygythiadau posibl i gynaliadwyedd darparwyr unigol a'r farchnad ehangach. O ganlyniad, o dan opsiwn un, efallai y bydd rhai darparwyr yn gweld manteision cadw'r status quo.

*Manteision i'r cyhoedd*

Nid ydym yn gweld unrhyw fanteision clir i'r cyhoedd o dan opsiwn un.

- **Opsiwn dau: creu rheoliadau sy'n galluogi cyhoeddi graddau arolygu ar gyfer gwasanaethau cartrefi gofal a gwasanaethau cymorth cartref**

*Manteision i AGC*

Mae'r Rheoliadau drafft yn cynnwys darpariaeth i ddarparwr gwasanaeth apelio yn erbyn gradd. Mae'r Rheoliadau yn datgan y gall darparwyr apelio ar sail anghywirdeb ffeithiol a/neu dystiolaeth anghyflawn. Dylai nodi'r amodau y gall darparwr apelio arnynt yn erbyn ei raddau arolygu gyfyngu ar nifer yr apelau di-

sail neu flinderus a wneir i'r rheoleiddiwr, gan arbed amser i AGC (er ein bod yn rhag-weld cynnydd bach yn nifer yr apelau wrth i ddarparwyr addasu i'r system newydd). Mae'r broses apelio yn atgynhyrchu'r hyn sydd eisoes ar waith i ddarparwyr herio adroddiadau arolygu. O ganlyniad, ni fydd angen i staff AGC dreulio amser yn ymgyfarwyddo â'r drefn apelio.

*Manteision i ddarparwyr gwasanaethau*

Bydd darparwyr gwasanaethau sy'n cael gradd "da" neu "ragorol" (neu gyfwerth) yn elwa ar allu dangos ansawdd y gwasanaeth y maent yn ei ddarparu o'i gymharu â darparwyr gwasanaethau eraill.

Bwriad disgrifio'r weithdrefn apelio mewn rheoliadau yw darparu eglurder a sicrwydd i ddarparwyr fel eu bod yn glir ynghylch y seiliau y gellir apelio arnynt, yr amserlenni a'r broses. Bydd y Rheoliadau yn cael eu hategu gan ddiweddariadau i ganllawiau gweithredol AGC.

*Manteision i'r cyhoedd*

O dan opsiwn dau, dylai cael graddau arolygu cyhoeddedig ei gwneud hi'n haws i'r rhai sydd â diddordeb yn ansawdd lleoliadau gwasanaeth unigol, fel pobl sydd angen gofal a chymorth neu aelodau o'u teulu, gynnal asesiad cymharol rhwng gwasanaethau o faint a disgrifiad tebyg. Dylai cael sicrwydd o wybodaeth gywir i seilio dewisiadau arni wneud y broses o ddewis darparwr gwasanaeth yn llai llafurus.

Disgwylir hefyd i gyhoeddi graddau arolygu ysgogi darparwyr i wneud gwelliannau parhaus yn y ffordd y maent yn darparu gofal. Felly, mae defnyddwyr gwasanaethau yn debygol o elwa ar y gwelliannau disgwyliedig i ansawdd y gwasanaeth y maent yn ei dderbyn.

**<u>Risgiau</u>**

- **Opsiwn un: gwneud dim – peidio â'i gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau arddangos graddau arolygu ar gyfer gwasanaethau cartrefi gofal a gwasanaethau cymorth cartref**

*Risgiau i AGC*

Os na chaiff y Rheoliadau Graddau Arolygu eu creu, mae risg i enw da AGC a Llywodraeth Cymru, gan fod £3.4 miliwn eisoes wedi ei wario ar osod y sylfeini ar gyfer y system newydd hon. Mae cyhoeddiadau eisoes wedi eu gwneud yn nodi y bydd graddau cyhoeddedig yn cael eu cyflwyno fel rhan o weithredu Deddf 2016.

*Risgiau i ddarparwyr*

Nid ydym wedi nodi unrhyw risgiau amlwg i ddarparwyr o dan opsiwn un.

*Risgiau i'r cyhoedd*

O dan opsiwn un, mae risg y gall pobl sy'n chwilio am wasanaeth iddyn nhw eu hunain neu i eraill, a chomisiynwyr, gael trafferth gwahaniaethu rhwng gwasanaethau a ddarperir i safon uchel a'r rhai sy'n bodloni'r safonau cydymffurfio sylfaenol yn unig. Mae'n debygol y bydd llawer o amser yn cael ei dreulio yn ceisio nodi gwasanaethau o ansawdd uchel – tasg a fyddai'n llawer haws ac yn cymryd llai o amser pe bai graddau ar gael.

- **Opsiwn dau: creu rheoliadau sy'n galluogi cyhoeddi graddau arolygu ar gyfer gwasanaethau cartrefi gofal a gwasanaethau cymorth cartref**

*Risgiau i AGC*

O dan opsiwn dau, mae risg y gallai'r berthynas waith gadarnhaol rhwng AGC a darparwyr ddirywio oherwydd graddau cyhoeddedig, gan y gallai darparwyr ganfod bod AGC yn rhoi baich ychwanegol arnynt. Dangosodd y gwerthusiad annibynnol o raddau mud fod rhai darparwyr yn teimlo y gallai graddau effeithio ar forâl a llesiant rheolwyr a staff. Mae'r risg hon yn cael ei lliniaru gan ymgysylltiad parhaus AGC â darparwyr ynghylch graddau. Mae AGC wedi cyhoeddi cynllun gweithredu mewn ymateb i argymhellion y gwerthusiad, sydd ar gael yma: [Graddau ar gyfer cartrefi gofal a gwasanaethau cymorth cartref – ein cynllun gweithredu | Arolygiaeth Gofal Cymru]

*Risgiau i ddarparwyr*

Nododd y gwerthusiad annibynnol o raddau mud risg y gallai gradd wael gael effaith negyddol ar forâl a llesiant staff, a allai arwain at berfformiad isel neu staff yn gadael y sefydliad. Mae risg hefyd y bydd gradd arolygu wael yn cael effaith negyddol ar fusnes darparwr, gan y gallai atal pobl rhag defnyddio'r gwasanaeth a gallai effeithio ar allu sefydliadau i sicrhau benthyciadau ariannol ac yswiriant. Gallai hefyd atal staff rhag bod eisiau gweithio yno.

I'r gwrthwyneb, efallai y bydd risg o hunanfodlonrwydd ymhlith darparwyr sy'n cyflawni graddau rhagorol, yn enwedig os na fyddant yn cael eu hailarolygu am ychydig flynyddoedd.

*Risgiau i'r cyhoedd*

O dan opsiwn dau, mae risg y gall pobl ddibynnu ar raddau i ddewis rhwng gwasanaethau, yn hytrach na darllen yr adroddiad arolygu llawn er mwyn cael cyd-destun ychwanegol. Gall hyn arwain at bobl yn diystyru gwasanaethau a allai fod yn addas iddyn nhw eu hunain neu i eraill.

## Casgliadau

Yn seiliedig ar werthusiad o gostau, manteision a risgiau'r ddau opsiwn, opsiwn dau yw'r opsiwn a ffefrir.

## Asesu'r gystadleuaeth

Mae prawf hidlo’r gystadleuaeth wedi ei gynnal. Gall y Rheoliadau gael effaith andwyol ar y darparwyr gwasanaethau hynny sy'n cael eu graddio fel 'gwasanaeth sydd angen ei wella'n sylweddol', fodd bynnag, y bwriad y tu ôl i'r polisi yw gwella tryloywder a safonau yn y sector. Bydd hyn o fudd i ddefnyddwyr gwasanaethau. Yn gyffredinol, ni ddisgwylir i'r Rheoliadau gael effaith negyddol ar gystadleuaeth yng Nghymru na chystadleurwydd y rhan fwyaf o fusnesau.